Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Polisi Gorfodi ac Erlyn

Rhagfyr 2012

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

© Crown Copyright 2012

# Cyfoeth Naturiol Cymru
# Polisi Gorfodi ac Erlyn

## Cyflwyniad

**Cefndir**

O 1 Ebrill 2013 ymgymerodd Corff Adnoddau Naturiol Cymru â swyddogaethau cyfun Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r swyddogaethau sydd wedi'u datganoli yng Nghymru i Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru.

Mae'r polisi hwn yn disodli'r holl ddogfennau polisi gorfodi blaenorol sydd gan y cyrff etifeddol hyn yng Nghymru a hwn yw'r datganiad polisi cyntaf ar orfodi ar gyfer y sefydliad newydd yng Nghymru.

Mae'r polisi hwn yn gymwys hefyd i ymchwiliadau cyfredol a gychwynnwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru cyn 1 Ebrill 2013.

**Cynulleidfa**

Yr holl gyflogeion, yn enwedig staff cyfreithiol a gweithredol.

**Ein nod**

Ein nod yw sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran yr amgylchedd, cymdeithas a'r economi i bobl a chymunedau yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy addysg, drwy ddarparu cyngor a thrwy reoleiddio gweithgareddau. Darparu cyngor a chyfarwyddyd clir fydd ein prif ddull o sicrhau cydymffurfiaeth ond mae sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, drwy arfer pwerau gorfodi gan gynnwys sancsiynau sifil ac erlyn, yn agwedd bwysig ar gyflawni'r nod hwn.

**Ein swyddogaethau**

Mae gennym swyddogaethau eang. Yn eu plith mae rheoli coedwigoedd a choetiroedd Cymru, rheoli llygredd, rheoleiddio gwastraff, rheoli adnoddau dŵr, rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd, pysgodfeydd, mordwyo a diogelu safleoedd a rhywogaethau a warchodir. Rydym yn rheoleiddio amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau hamdden, rheolaeth ar glefydau planhigion, gwarchod rhywogaethau prin a rheoli allyriadau o brosesau diwydiannol cymhleth.

**Cydweithio ag eraill**

Mae ein staff yn cydweithio â llywodraeth leol a rheoleiddwyr eraill ar faterion fel cynllunio, llygredd aer, iechyd cyhoeddus a diogelwch galwedigaethol er mwyn sicrhau rheoleiddio cydlynol. Maent hefyd yn cydweithio â nifer o gyrff cadwraeth, grwpiau gwirfoddol a sefydliadau anllywodraethol er mwyn cyflawni nodau cyffredin. Lle y mae pŵer gennym ni a chan gorff gorfodi arall i gymryd camau gorfodi, byddwn yn cydgysylltu â'r corff arall hwnnw i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd effeithiol, gyson a chydgysylltiedig, ac i sicrhau bod unrhyw gamau a gymerwn yn briodol i'r tramgwydd.

**Ein dull cyffredinol o weithio**

Gwell rhwystro'r clwy na'i wella yn ein barn ni. Ein dull cyffredinol o weithredu yw ymgysylltu â pherchnogion tir a busnesau i addysgu a hwyluso camau i gydymffurfio neu atal niwed. Cynigiwn wybodaeth a chyngor i'r rheini yr ydym

yn eu rheoleiddio a cheisiwn osgoi biwrocratiaeth neu gost ormodol. Rydym yn annog unigolion a busnesau i roi'r amgylchedd yn gyntaf ac i integreiddio arferion amgylcheddol da â dulliau arferol o weithio. Rhoddwn ystyriaeth briodol i werth cynnydd economaidd.

**Ein dull o drafod diffyg cydymffurfio**

Os nad yw gweithredwr neu unigolyn yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol, byddwn yn cynnig cyngor a chyfarwyddyd fel arfer i'w helpu i wneud hynny. Os yw'n briodol, byddwn yn cytuno ar atebion ac amserlenni i wneud unrhyw welliannau. Ceisiwn ymateb i'r amgylchiadau mewn ffordd briodol. Gallai angen godi hefyd am ddefnyddio pwerau gorfodi ffurfiol a sancsiynau.

**Egwyddorion**

Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion cyffredinol y byddwn yn eu dilyn wrth orfodi a gosod cosbau. Dylid ei ddefnyddio ar y cyd â'r Canllawiau ar Orfodi a Chosbau, sy'n cynnwys gwybodeth fwy manwl, ac unrhyw Ddatganiad Sefyllfa Rheoliadol a gyhoeddwyd y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dewis eu mabwysiadu. Byddwn hefyd yn trefnu i wybodaeth briodol fod ar gael am ein defnydd o sancsiynau.

## Ein dull o orfodi

**Diffiniad**

I ddibenion y datganiad hwn, ystyr gorfodi yw unrhyw gamau a gymerwn mewn achosion lle'r ydym yn amau bod tramgwydd wedi digwydd neu ei fod ar fin digwydd. Gall hyn amrywio o ddarparu cyngor a chyfarwyddyd, cyflwyno hysbysiadau hyd at erlyn, neu unrhyw gyfuniad o gamau sy'n sicrhau'r canlyniad a ddymunir.

Mewn rhai achosion, dan Reoliadau Difrod Amgylcheddol 2009, gallai fod yn ofynnol cymryd camau gorfodi er nad oes amheuaeth o dramgwyddo, ond yn y rhan fwyaf o achosion bydd gweithgarwch sy'n arwain at 'ddifrod amgylcheddol' dan y Rheoliadau yn cael ei gyfrif yn dramgwydd hefyd dan ddeddfwriaeth amgylcheddol.

**Defnyddio sancsiynau**

O fewn y dull cyffredinol hwn o weithredu, lle y mae tramgwydd wedi'i gyflawni a lle nad yw neu na fydd modd sicrhau'r canlyniad angenrheidiol drwy gynnig cyngor a chyfarwyddyd, byddwn fel arfer yn ystyried gosod rhyw fath o gosb yn ogystal â chymryd camau ataliol neu adferol eraill sy'n angenrheidiol i amddiffyn yr amgylchedd neu bobl. Ceisiwn ddefnyddio sancsiynau sifil a throseddol mewn ffordd sy'n briodol i'r tramgwydd, fel yr ydym wedi dangos yn ein Canllawiau ar Orfodi a Chosbau.

**Opsiynau gorfodi**

Yr opsiynau sydd ar gael i ni yw:

- darparu cyngor a chyfarwyddyd
- rhoi rhybudd;
- hysbysiadau gorfodi statudol a hysbysiadau gwaith;
- hysbysiadau gwahardd;
- atal neu ddirymu trwyddedau amgylcheddol ac amrywio amodau

trwydded;

- gwaharddebau;
- cyflawni gwaith adfer;
- sancsiynau sifil;
- sancsiynau sifil ac ariannol eraill gan gynnwys Hysbysiadau Cosb Benodedig;
- cyhoeddi rhybuddiad ffurfiol;
- erlyn a gorchmynion sy'n ategu erlyniadau;
- sancsiynau wedi'u defnyddio ar y cyd.

Credwn fod cyhoeddi gwybodaeth am ein gweithgareddau gorfodi, lle y mae hynny'n briodol, yn ffordd o hybu ymwybyddiaeth o'r angen i gydymffurfio â gofynion rheoliadol.

Byddwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg a deunydd cyhoeddusrwydd arall sy'n ymwneud â thramgwyddau a thramgwyddwyr, a fydd yn gymesur â'r sancsiwn.

**Adennill costau**

Lle y mae'r gyfraith yn caniatáu, byddwn bob amser yn ceisio adennill costau am ymchwilio ac achosion gorfodi. Os byddwn wedi codi costau, er enghraifft drwy wneud gwaith adfer, byddwn yn ceisio adennill yr holl gostau a godwyd oddi wrth y rheini sy'n gyfrifol yn unol ag egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'.

**Egwyddorion cosbi**

Rydym yn disgwyl gweld cydymffurfio llawn a gwirfoddol â gofynion perthnasol mewn deddfwriaeth a darpariaethau mewn trwyddedau. Wrth ystyried pa gamau sy'n briodol i sicrhau cydymffurfiaeth, ceisiwn ddilyn Egwyddorion Cosbi Macrory sydd wedi'u nodi yng Nghod Cydymffurfio'r Rheoleiddwyr. Mae'r rhain yn datgan mai nod camau gorfodi a sancsiynau yw:

- ceisio newid ymddygiad y tramgwyddwr;
- ceisio dileu unrhyw fudd neu enillion ariannol o beidio â chydymffurfio;
- bod yn ymatebol ac ystyried beth sy'n briodol ar gyfer y tramgwyddwr neu fater cydymffurfio dan sylw, a gall hyn gynnwys cosbi a'r stigma cyhoeddus a ddylai fod yn gysylltiedig â chollfarn am dramgwyddo;
- bod yn gymesur â natur y tramgwydd a'r niwed a achoswyd;
- ceisio gwneud iawn am y niwed a achoswyd drwy beidio â chydymffurfio â gofynion rheoliadol, os yw'n briodol;
- ceisio atal tramgwyddwyr rhag peidio â chydymffurfio yn y dyfodol.

## Egwyddorion rheoleiddio a gorfodi

**Cod Cydymffurfio'r Rheoleiddwyr**

Rhaid i ni ystyried y darpariaethau yng Nghod Cydymffurfio'r Rheoleiddwyr wrth ddyfeisio a gweithredu polisïau a systemau rheoliadol. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau hynny'n cael eu cymhwyso'n uniongyrchol at achosion penodol.

Nid yw gofynion y Cod yn gymwys mewn rhai sefyllfaoedd, er enghraifft:

- lle y mae angen ymateb ar unwaith i un ai atal neu ymateb i doriad neu ddigwyddiad difrifol;
- lle y byddai dilyn y darpariaethau'n groes i bwrpas y camau gorfodi arfaethedig;
- lle y mae sail resymol dros amau bod trosedd difrifol wedi'i gyflawni, yn enwedig lle y byddai troseddu o'r fath yn cael effaith niweidiol ar fusnes cyfreithlon a chanlyniadau rheoliadol manteisiol.

**Egwyddorion rheoleiddio sy'n gadarn ond yn deg**

Credwn mewn rheoleiddio sy'n gadarn ond yn deg. Ein hegwyddorion sylfaenol wrth reoleiddio'n gadarn ond yn deg yw:

- bod yn gymesur wrth gymhwyso'r gyfraith ac wrth sicrhau cydymffurfiaeth;
- gweithredu'n gyson;
- bod yn dryloyw am ein ffordd o weithredu a beth y mae'r rheini'r ydym yn eu rheoleiddio'n gallu ei ddisgwyl gennym;
- targedu camau gorfodi;
- bod yn atebol am y camau gorfodi yr ydym wedi'u cymryd.

## Bod yn gymesur

**Cysyniad**

Yn gyffredinol, mae'r cysyniad o gymesuredd wedi'i gynnwys mewn sawl agwedd ar y system reoleiddio drwy ystyried camau i warchod yr amgylchedd ochr yn ochr â risgiau a chostau camau o'r fath.

**Cydbwyso ein hymateb i'r risg**

Mae rhai digwyddiadau neu doriadau ar ofynion rheoliadol yn achosi neu'n gallu achosi difrod difrifol i'r amgylchedd. Mae eraill a allai ymyrryd â hawliau neu fwynhad pobl, neu ein gallu i gynnal gweithgareddau. Ein hymateb cyntaf fydd atal niwed i bobl ac i'r amgylchedd rhag digwydd neu barhau. Bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerwn yn gymesur â'r risgiau i bobl ac i'r amgylchedd a hefyd â difrifoldeb y tor-cyfraith a'i effaith ar fusnesau cyfreithlon.

## Bod yn gyson

**Ein dull o weithredu**

Ystyr cysondeb yw delio mewn ffordd debyg ag amgylchiadau tebyg er mwyn sicrhau canlyniadau tebyg. Ceisiwn fod yn gyson wrth gynnig cyngor, wrth ymateb i lygredd a digwyddiadau eraill, wrth arfer pwerau, ac wrth benderfynu a fyddwn yn erlyn a pha sancsiwn sy'n briodol.

**Disgresiwn**

Er hynny, rydym yn cydnabod bod cysondeb yn golygu mwy nag unffurfiaeth. Bydd angen i swyddogion ystyried nifer o ffactorau newidiol; agweddau meddwl a gweithredoedd unigolion a rheolwyr busnesau; a hanes digwyddiadau neu doriadau blaenorol. Mater o arfer barn broffesiynol yw penderfynu ynghylch camau gorfodi a bydd angen i'n swyddogion arfer disgresiwn. Parhawn i ddatblygu trefniadau i hyrwyddo cysondeb, gan gynnwys ffyrdd effeithiol o gydgysylltu ag awdurdodau gorfodi eraill.

## Bod yn dryloyw

**Ein dull o weithredu**

Mae tryloywder yn bwysig o ran cadw hyder y cyhoedd yn ein gallu i reoleiddio. Mae'n golygu rhoi cymorth i endidau a reoleiddir ac eraill i ddeall beth a ddisgwylir ganddynt a beth y dylent ei ddisgwyl gennym ni. Mae hefyd yn golygu egluro pwrpas y camau gorfodi y mae swyddogion wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd. Mae ein Canllawiau ar Orfodi a Chosbau yn cynnig tryloywder o ran y ffordd y byddwn yn edrych ar dramgwyddau ac yn delio â nhw.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn**

Mae tryloywder yn rhan annatod o rôl y swyddog a byddwn yn parhau i hyfforddi ein staff ac i ddatblygu ein gweithdrefnau er mwyn sicrhau:

- lle y mae angen camau adfer, ein bod yn ei gwneud yn glir pam y mae angen cymryd y camau a pha bryd y mae'n rhaid eu cymryd, gan wahaniaethu rhwng cyngor ar yr arferion gorau a gofynion cyfreithiol;
- ein bod yn rhoi cyfle i drafod beth sydd ei angen i gydymffurfio â'r gyfraith cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol, oni bai fod angen cymryd camau ar frys, er enghraifft i warchod yr amgylchedd neu atal tystiolaeth rhag cael ei dinistrio;
- lle'r ydym yn mynnu bod gweithredwr yn cymryd camau brys, y byddwn yn rhoi eglurhad ysgrifenedig o'r rhesymau am hynny mor fuan â phosibl ar ôl y digwyddiad;
- y byddwn yn rhoi eglurhad ysgrifenedig o unrhyw hawliau apelio yn erbyn camau gorfodi ffurfiol pan gymerir y camau.

## Targedu

**Ffocws**

Ystyr targedu yw sicrhau bod gwaith rheoleiddio'n canolbwyntio'n bennaf ar y rheini y mae eu gweithgareddau'n achosi neu'n creu'r perygl o achosi difrod amgylcheddol difrifol, lle y mae'r rheolaeth wannaf ar risgiau, neu ar droseddu bwriadol neu gyfundrefnol. Byddwn yn gweithredu yn erbyn troseddwyr neu'r rheini sy'n uniongyrchol gyfrifol am y risg a/neu'r rheini sydd yn y lle gorau i'w reoli.

**Rheoleiddio ar sail risg**

Drwy weithredu ar sail risg gallwn flaenoriaethu ein harolygiadau. Mae hyn yn cynnwys pennu dosbarth y diffyg cydymffurfio ar safleoedd trwyddedig a phennu dosbarth digwyddiadau eraill ar sail asesiad o risg ac effaith wirioneddol ar yr amgylchedd. Rhoddwn flaenoriaeth uchel i ymchwiliadau sy'n ymwneud â throseddu cyfundrefnol, gweithgarwch troseddol agored, elw sylweddol, bygythiadau o drais neu ffactorau gwaethygol eraill.

**Diwydiannau rheoledig**

Yn achos diwydiannau rheoledig, mae camau gweithredu gan reolwyr yn bwysig. Os ceir digwyddiadau cyson neu gyfres o doriadau cysylltiedig ar ofynion rheoliadol, gall hynny fod yn arwydd o amharodrwydd i newid ymddygiad, neu anallu i sicrhau rheolaeth ddigonol. Gallai hyn alw am adolygu'r gofynion rheoliadol, edrych ar allu'r gweithredwr i redeg y safle a/neu fuddsoddi ychwanegol. Rydym yn cydnabod bod safle neu weithgarwch cymharol fach ei beryglon sy'n cael ei reoli'n wael yn gallu creu mwy o berygl i'r amgylchedd na safle neu weithgarwch mwy peryglus, lle y mae mesurau rheoli priodol ar waith.

## Atebolrwydd

**Cyfrifoldeb ac ymgynghori**

Ystyr atebolrwydd yw ein bod yn derbyn cyfrifoldeb am ein penderfyniadau ac y byddwn yn eu cyfiawnhau os yw'n briodol. Mae ein hysbysiadau a dogfennau sancsiynau'n cynnwys gwybodaeth berthnasol ynghylch sut i apelio a chwyno. Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau yn y datganiad hwn ac yn y ddogfen Canllawiau ar Orfodi a Chosbau sy'n ei ategu.

**Cydweithio â Llywodraeth**

Byddwn yn cynorthwyo mewn adolygiadau cyfnodol gan Lywodraeth o'n gweithgareddau rheoleiddio a gorfodi a byddwn yn adrodd ar ein gweithgareddau gorfodi a gosod sancsiynau yn unol â gofynion mewn deddfwriaeth.